CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 20, 2023

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Mehefin 20, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr Meurig Ashton (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Robin Jones, Geraint Evans, Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins. Karen G. Goswell, Barry Jones, Emlyn Roberts, Llion Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 16, 2023.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 16, 2023.**

Eitem 7.c.3. Llythyr (18/5/2023) oddi wrth Arweinydd Tîm Mynediad, Cyngor Gwynedd. Mae'n rhoi gwybod lle mae ganddynt gytundeb tirfeddianwyr mewn lle maent yn ymdrechu i osod giatiau i gymryd lle camfeydd beth bynnag fo statws llwybr dan sylw. O agwedd llwybrau ceffyl / march (*bridleway* sydd â hawliau ar droed, beiciau a cheffylau) mi ddylai y rhain fod a giatiau arnynt beth bynnag, os oes yna gamfeydd ar lwybr march byddai rhain yn cael eu hystyried yn rhwystr. Yn y ein cymuned mae camfeydd ystol wedi ei osod ar lwybr march (rhif 66 a 67 - Ysgol-Caeglas-Penybanc) ers 15-20 mlynedd, ac maent wedi trafod y mater gyda'r tirfeddianwyr ac yn obeithiol cael datrysiad i'r mater yma.

Eitem 7.h. Llythyr (17/5/2023) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn dolch am ein cefnogaeth iddynt gael grant.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (18/5/2023) oddi wrth Teligent Telecom gyda chais ymgynghoriad ar y bwriad gwneud gwaith safle newydd telecom yn Moel Hafodowen, Coedwig Coed y Brenin, Llanfachreth. Bydd y safle yn cynnwys mast o uchdwr 40m gyda 9 antena a tair dysgl, a chypyrddau i gyd o fewn ffens. Mean debyg bydd y cais yn dod trwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (12/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o Model Reolau Sefydlog 2003 (Cymru).

c. Llythyr (22/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys 5 dogfen ar Bioamrywiaeth: (Holwyd am y wybodaeth).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi dyddiadau hyfforddiant am fis Mai a Mehefin.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (25/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru bydd yn cael ei gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol ar ddydd Mercher, 5 Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (25/5/2023) oddi wrth Adran Priffyrdd yn rhoi gwybod am y gwaith bydd yr Adran yn ei wneud ym mis Mehefin:

1. Atgyweirio pont droed sydd wrth ochr rhyd ger Tyddyn Du, Hermon. Mae'r bont gerrig wedi disgyn.

<u>Penderfynwyd</u> anfon llythyr o ddiolch i'r Adran am y gwaith cafodd ei wneud a rhoi gwybod iddynt mae'r aelodau yn dymuno cael tynnu llun ar y safle gyda'r swyddogion oedd yn gysylltiedig â'r gwaith.

2. Rhoi pyst giat, codi camfa, atgyweirio pont a chlirio coed ar lwybrau 90 (Coedyrhoslwyd – Llwynycoed), 91 (Bryncoedifor – Maesycambrian), 111 (Troedyrhiw – Coedyrhoslwyd), 120 (Caerdefaid – Caeheuad).

3. Bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth (12-16/6/23).

<u>Penderfynwyd</u> gofyn i'r Adran pa waith gwnaethwyd yn yr ardal yn ddiweddar.

e. Llythyr (31/5/2023) oddi wrth Rhannu Cartref, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gynllun newydd Rhannu Cartref.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (2/6/2023) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am eu gwaith o glirio coed ar dir wrth Creigiau Brithion, Drwsynant. Bydd y gwaith y para rhwng 4 a 6 mis.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (5/6/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mae gwybodaeth am gynghorau cymuned a thref yn cael eu cadw yn eu cronfa data o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

g. Llythyr (5/6/2023) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cronfeydd Cefnogi Adfywio, Cefnogi Diwylliant, Digwyddiadau, Byw'n Iach ac Actif UKSPF Gwynedd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau ar gyfer prosiectau fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion a chymunedau'r Sir, ar sail cyflwyno ceisiadau trwy Cronfeydd Cefnogi (SPF) (llyw.cymru)
Mae'r Cronfeydd yn croesawu ceisiadau gan Gynghorau Cymuned a Thref. Dyddiad cau i geisiadau Gorffennaf 14 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (6/6/2023) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy Un Llais Cymru) gyda manylion am y newid 30mya i 20mya ar draws Cymru bydd yn dod i rym o fis Medi 17, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (7/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru – Bwletin Newyddion. Maent yn rhoi gwybod roedd angen i ni wedi gwneud Adroddiad Blynyddol, Cynllun Hyfforddiant Cyfarfod Hybrid (mynediad i'r cyhoedd i ein cyfarfodydd). Mae y rhain eu hangen dan 'Dyddiadau cau Gofynion Cyfreithiol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru) 2021'. Rhaid i gynghorau adrodd ar Fioamrywiaeth o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1. Gweler Eitem 9.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (13/6/2023) oddi wrth Gwasanaeth Gwybodaeth Traffig Cymru yn rhoi gwybod am waith ail-wynebu ffordd A494 yn Rhydymain bydd yn cael ei wneud rhwng 20/6/2023 a 27/6/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

l. Llythyr (14/6/2023) oddi wrth oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar Ffordd o'r Hen Felin i'r de i drac yn arwain i Ben y Ffridd, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 18/7/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/136E. Adeiladu estyniad unllawr to brig i'r drychiad gogleddol. Gwel Y Garn, Llanfachreth.

Anfonwyd llythyr (23/5/2023) i'r Parc yn rhoi gwybod iddynt mae aelodau'r Cyngor yn ansicr sut i ymateb i'r cais yn bennaf oherwydd y bwriad i osod to sinc ar yr adeilad, a gofyn beth yw argymhellion y swyddogion i'r cais.

Anfonwyd llythyr (30/5/2023) i'r Parc yn gofyn am ganiatad i ymestyn dyddiad cau y cais i ni gael ei drafod yn ein cyfarfod. Derbyniwyd caniatad.

Lythyr ateb (12/6/2023) derbyniodd Cyng Delyth Lloyd Griffiths gan y Parc:
Eu polisi am ddefnyddiau addas ar gyfer estyniadau newydd o fewn y Parc.
Ymddengys bod yr ymgeisydd eisiau to o'r fath hon er mwyn cyd fynd efo adeiladau amaethyddol eraill o fewn yr ardal gyfagos.
Er hyn - estyniad yw'r cais a y polisi ar gyfer deunyddiau yw Polisi Datblygu 6 – Dyluniad a deunyddiau cynaliadwy sydd yn nodi ei fod yn ofynnol defnyddio llechen fwynol Gymreig neu ddefnydd cywerth cymeradwy gyda'r un nodweddion lliw gwedd a hindreulio ar adeiladau ac estyniadau newydd a pholisi ar estyniadau yw Polisi Datblygu 15 sy'n nodi ni ddylid fod yn niweidiol i'r annedd na chymeriad yr amgylchoedd ble mae wedi'i leoli.
Dwi am drafod y cais efo'r tîm, ond dwi am fynd yn ôl i'r ymgeisydd i weld os fyddent yn fodlon newid hwn i gydymffurfio efo'r to'r tŷ gwreiddiol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

<u>Penderfynwyd</u> rhoi gwybod i'r Parc nid yw'r Cyngor yn cefnogi'r cais cynllunio. Mae hyn oherwydd

1. Mi ddylai'r to fod o wneuthuriad llechen i gyd-fynd gydag adeiladau cyffelyb yn yr ardal. Byddai mynd yn groes i hyn yn gosod cynsail heriol iawn.
2. Mae rhoi to ar estyniad i dy yng nghanol cefn gwlad a dadlau ei fod yn gweddu i'r amgylchedd lleol lle mae siediau amaethyddol a thoi sinc, yn groes i bolisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Nid adeilad amaethyddol ydi'r cais yma ond estyniad (honedig) i aneddle gwledig. Mae hwn yn adeilad a phedair ochr iddo wedi ei gysylltu i'r tŷ gydag adeilad a tho fflat sydd yn creu mynediad i'r estyniad.
3. Nid yw defnydd o fetel rhychiog yn addas i do estyniad i adeilad traddodiadol. Dylai llechi gael ei ddefnyddio.

b. Llythyr (22/5/2023) yn gofyn am enw aelod sydd am ymuno cyfarfod ynglŷn ag Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol bydd yn cymryd lle ar Zoom ar nos Iau, Mehefin 8, 2023 am 7:30 y.h.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (7/6/2023) yn rhoi gwybod am hyfforddiant ar 'Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau traddodiadol' bydd yn cymryd lle yn Natural Building Centre, Llanrwst. Mae manylion ar https://eryri.llyw.cymru/product/gwella-effeithlonrwydd-ynni-adeiladau-traddodiadol/

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (17/5/2023 a 6/6/2023) oddi wrth Neuadd Rhydymain yn diolch am ein rhodd o £700.

b. Llythyr (6/6/2023) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £350.

c. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2022 – Mawrth 31, 2023.

Swm am: stampiau + papur +amlenni + inc = £558.78. (Llynedd roedd y costau yn £591.34).

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Rhoddwyd i'r aelodau gopi o Gyllideb y Cyngor am 2023-2024.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'i gynwys.

d. Rhoddwyd i'r aelodau ffurflen i arwyddo yn rhoi gwybod nid oeddynt am dderbyn lwfans o £150 ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu ar 31 Mawrth 2024.

Arwyddodd yr aelodau y ffurflen.

dd. Llythyr (7/6/2023) oddi wrth Office for National Statistics yn rhoi gwybod rydym wedi cael ein dewis i gwblhau Annual Business Survey (ABS) ac mae angen ei gwblhau cyn 30/6/2023 o dan y gyfraith.

Rhoddwyd y wybodaeth iddynt ar 10/6/2022.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2023: £1,149.39.
Balans yn y banc ar 29/5/2023: £10,322.14. (29/5/2022: £10,387.20).

**9. Archwilio**

a. Llythyr (23/5/2023) oddi wrth Archwiliwr Mewnol gyda dogfen 'Y pecyn cymorth cyllid a llywodraethu ar gyfer cynghorau cymuned a thref'.

b. Derbyniwyd (25/5/2023) yr Adroddiad Archwiliad Mewnol. Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau yn 26/5/2023.

O'r adroddiad nodwyd:

1. Mae angen rhoi cais i HMRC am ad-daliad TAW. Tro diwethaf i gais cael ei gyflwyno oedd 31/10/2019.

Rhoddwyd cais am ad-daliad yn 19/6/2023.

2. Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr ni dderbyniwyd llythyr unigol gan yr aelodau yn datgan nad oeddynt eisiau y tâl o £150.
Rhoddwyd gwybod iddo fo ni dderbyniodd yr aelodau y tâl.

3. Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr mae'r Cyngor yn caniatáu Aelodau a'r cyhoedd i gael mynediad ar-lein (Teams, Zoom ayb) i gyfarfodydd y Cyngor yn unol â phennod 5 o Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
(Roedd yn anghywir i ddweud hyn. Nid oes gan y Cyngor cyfleusterau i fod ar-lein).

4. Methiant i dderbyn dyfynbrisiau am wariant dros drothwy penodol yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.
Roedd yr Archwiliwr yn cyfeirio at daliad gwneuthwyd i A.M. Ashton (£2,310). Roedd yn gofyn ddaru'r Clerc rhoi cyfle i eraill drio am y gwaith neu drefnu cael 3 dyfynbris am y gwaith yn unol ag amod 11.1.g o'r Rheoliadau Ariannol – "Pan fwriedir gwneud contract gwerth llai na £3,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith neu wasanaethau arbenigol ac eithrio'r nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodir ym mharagraff (a) bydd y Clerc yn trefnu cael tri dyfynbris i wneud y gwaith.
Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr bod A.M. Ashton wedi gwneud y gwaith am flynyddoedd.
Mae'r Archwiliwr yn awgrymu (ond ddim efo sicrwydd) rhoi yr eitem yn golofn 'Arall' yn ffurflen Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

5. Rhoddwyd gwybod i'r Archwiliwr nid oes gan y Cyngor: Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Bioamrywiaeth a Chynllun Hyfforddiant Aelodau.
Derbyniwyd gan yr Archwiliwr gopi o'r adroddiadau roedd Cyngor Tref Criccieth wedi eu gwneud i ddangos beth mae'r adroddiadau yn eu cynnwys.
Anfonwyd yr adroddiadau i'r aelodau.

c. Anfonwyd (1/6/2023) dogfennau oedd eu hangen i Archwiliwr Allanol, Archwilio Cymru. (Anfonwyd y dogfennau i'r cyfeiriad anghywir ond wedi gwneud ymoliadau â hwy roeddynt wedi eu derbyn).

ch. Llythyr (30/5/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda hysbysiad Archwilio 2022-2023.

Erbyn Mehefin 18 2023 bydd angen cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar yr hysbysfyrddau ac ar ein gwefan am 14 diwrnod. Wedi'r 14 diwrnod mae angen gwneud trefniadau i'r cyhoedd archwilio'r dogfennau am 20 diwrnod rhwng Gorffennaf 3 a Gorffennaf 28 2023.

Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau yn 16/6/2023.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (16/5/3023) ymateb cafwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â Plas Nannau.
Yn absenoldeb unrhyw weithred oddi wrth y perchennog rydym yn ceisio am grant oddi wrth gronfa arian Gwaith Brys CADW;
Mae CADW wedi dangos rywfaint o gefnogaeth - ond wedi dod yn ôl am ragor o wybodaeth - felly mae'r broses yma yn parhau ar hyn o bryd.
Prif nod y gwaith yma fydd ceisio cau'r adeilad rhag gollwng fwy o ddŵr (problem fawr ar ôl i'r plwm cael ei ddwyn) - yn benodol drwy waith ar y to (mi fydd hyn yn ddrud iawn - a dyma un o'r materion mae CADW wedi dod yn ôl am ragor o fanylion arno h.y. costau gwneud y gwaith yma).
Nid oes sicrwydd byddwn yn llwyddiannus - ond ceisiaf cadw mewn cyswllt gyda chi fel mae pethau'n symud ymlaen.
Nid oes casgliad ar be fydd defnydd terfynol yr adeilad eto (na pwy fydd yn rheoli- gan fod y perchennog presennol wedi dangos dim diddordeb hyd yma).
Yn dilyn llythyr gan yr Awdurdod, mae'r perchennog wedi cau'r drws allanol i fyny - gall hyn leihau'r potensial i bobl fynd i mewn i'r adeilad (hwn ydi'r tro cyntaf i'r perchennog ymateb yn gadarnhaol i unrhyw ymholiad oddi wrth yr Awdurdod).
Rydym wedi codi pryderon gyda'r Cyngor Sir am fynediad diawdurdod i mewn i'r adeilad - maen nhw yn ymwybodol o hyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (17/5/2023 ymateb cafwyd gan Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Hen Ysgol Llanfachreth yn rhoi gwybod maent wedi derbyn ebost gan asiant yr eglwys yn cadarnhau cytundeb i bris prynu. Oherwydd sensitifrwydd masnachol, ni fyddai'n addas i ryddhau'r ffigwr nes fod y pryniant wedi ei gwblhau yn gyfreithiol. Maent yn symud ymlaen i gyfawyddo'r adran gyfreithiol heddiw, a diweddaru chi unwaith bo'r pryniant wedi ei gwblhau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (5/6/2023) yn rhoi manylion grantiau cyfalaf a refeniw ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol Gwynedd. Grantiau Cist Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Derbyniwyd llun (15/6/2023) o waith sy'n cael ei wneud gan Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i Pont Tyddyn Du, Hermon.

Anfonwyd y llun i'r aelodau.

## 11. Materion yr Aelodau

a. Mae angen i'r aelodau gwblhau ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd' cynghorydd.

Gwblhawyd y ffurflen gan yr aelodau a chawsant gopi o'r 'Cod Ymddygiad'

---------

Llofnod: Dyddiad: